Rhif: WG48526

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Categorïau cofrestru newydd ar gyfer Cyngor y Gweithlu Addysg yn 2024

Cynigion i ychwanegu at y categorïau o bobl y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg – ymgynghoriad ar offeryn statudol drafft.

Rhagfyr 2023

OGL © Hawlfraint y Goron

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno crynodeb o farn a safbwyntiau ymatebwyr mewn perthynas â sut rydym yn bwriadu cryfhau y gofynion cofrestru presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sector ôl-16 yng Nghymru.

## Camau i’w cymryd.

Mae’r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Cyngor y Gweithlu Addysg
Deddf Addysg (Cymru) 2014
Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015
Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) (Cymru) 2017

Gellir dod o hyd i ddogfennau'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/ymgyngoriadau.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Helen Scaife
Cangen Datblygu'r Gweithlu Ôl-16
Y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a’r Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd
@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o ymatebion a chopïau o holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i’r dogfennau ymgynghori:
Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2024 | LLYW.CYMRU

# Cynnwys


Cyflwyniad 2
Sut mae'r trefniadau cofres tru'n gweithio ar hyn o bryd? 2
Beth oedd y cynnig am newid? 3
Crynodeb o'r ymatebion 3
Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf 9
Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr 11

## Cyflwyniad

1. Mae'r rhai sy'n gweithio mewn addysg ôl-16, boed hynny mewn sefydliadau dynodedig neu’r gymuned, yn rhan annatod o helpu pobl i fod yn ddiogel, i ddysgu ac i ffynnu yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio atgyfnerthu proffesiynoldeb y gweithlu hollbwysig hwn mewn ffordd gadarnhaol. Rydym wedi ymgynghori ddwywaith ar ein cynigion i fynd i'r afael â rhai anghysondebau yn y gofynion cofrestru presennol ar gyfer y rhai sy'n gweithio mewn addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, a dysgu oedolion yn y gymuned.

2. Cynhaliwyd yr ail ymgynghoriad ar yr offeryn drafft rhwng 26 Medi a 21 Tachwedd. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a gymerodd yr amser i roi adborth ar y cynigion hyn. Bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r ddeddfwriaeth derfynol.

3. Ein cynllun yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd ar 1 Ebrill 2024. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn cynnal gwaith paratoadol ar gyfer cyflwyno'r categorïau newydd o gofrestru. Mae hyn yn cynnwys rhaglen ymgysylltu â chyflogwyr a darpar gofrestreion i esbonio'r gofynion cyfreithiol newydd.

4. Cafwyd amrywiaeth o safbwyntiau gan 31 o ymatebwyr. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r themâu allweddol sy'n deillio o'r ymatebion.

## Sut mae'r trefniadau cofrestru'n gweithio ar hyn o bryd?

5. Mae cofrestru yn rhoi hawl i berson weithio mewn proffesiwn penodol. Mae'r amrywiaeth o broffesiynau rheoleiddiedig yn y DU yn helaeth ac yn tyfu. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r proffesiwn cyfreithiol, y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, cyfrifyddiaeth, peirianneg a phensaernïaeth.

6. Mae'r trefniadau cofrestru'n golygu y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod y bobl sy'n gweithio mewn proffesiwn penodol yn meddu ar gymwysterau addas, eu bod yn diweddaru eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyson, a bod eu hymddygiad a'u cymhwysedd o safon briodol.

7. Fel rheoleiddiwr statudol annibynnol, rôl Cyngor y Gweithlu Addysg yw diogelu'r cyhoedd. Mae'n gwneud hyn drwy gynnal cofrestr o ymarferwyr addysg (y Gofrestr). Yn dilyn diwygiadau diweddar i'r categorïau cofrestru, fel y maent wedi’u nodi yng Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Categorïau Cofrestru Ychwanegol) (Cymru) 2023 a ddaeth i rym ym mis Mai 2023, mae 11 categori cofrestru gwahanol erbyn hyn:

    - athro ysgol a gynhelir.
    - athro addysg bellach
    - athro ysgol annibynnol
    - athro sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
    - ymarferydd dysgu seiliedig ar waith
    - gweithiwr ieuenctid
    - gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol a gynhelir
    - gweithiwr cymorth dysgu mewn addysg bellach

- gweithiwr cymorth dysgu mewn ysgol annibynnol
- gweithiwr cymorth dysgu mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol
- gweithiwr cymorth ieuenctid

8. Mae'r gofrestr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor tua 85,000 o gofrestreion.

## Beth oedd y cynnig am newid?

9. Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnig y canlynol:
    1. Gofyniad i athrawon addysg bellach feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 5 o leiaf i weithio yn y sector.
    2. Gofyniad i ymarferwyr addysg oedolion sy’n gweithio yn y gymuned gofrestru.
    3. Gofyniad i ymarferwyr addysg oedolion feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 3 o leiaf.
    4. Gofyniad i uwch-reolwyr a phenaethiaid sy'n gweithio mewn sefydliadau addysg bellach gofrestru.

## Crynodeb o’r ymatebion

10. Cafwyd 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan drawstoriad o gymdeithas, gan gynnwys y cyhoedd, undebau llafur, cyrff rheoleiddio ac amryw gyrff cynrychioliadol, yn bennaf yn y sector addysg yng Nghymru.

11. Cyflwynwyd 21 o ymatebion lle na roddwyd enw na sefydliad, neu lle roedd yr ymatebydd yn gofyn am i'w ymateb gael ei drin fel un dienw. Mae dymuniadau ymatebwyr i gael eu trin yn ddienw wedi cael eu parchu yn yr adroddiad cryno hwn. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad A.

### Athrawon Addysg Bellach.

12. Cafwyd 30 o ymatebion ar gyfer cwestiwn 1 "Ydych chi'n cytuno â'r cynnig y bydd yn rhaid i Athrawon Addysg Bellach feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 5 o leiaf i allu gweithio yn y sector?". Cafwyd ymateb cymysg gydag ychydig dros draean yn cytuno â'r cynnig a'r un nifer yn anghytuno. Nid oedd yr 8 ymatebydd arall yn cytuno nac yn anghytuno.

13. Roedd rhywfaint o bryder ymysg y rhai a ymatebodd ynghylch yr effaith y gallai'r ddeddfwriaeth newydd hon ei chael ar rai o'r gweithlu, yn enwedig y rhai o gefndir galwedigaethol.

14. Er bod sawl un yn cytuno y dylai athrawon addysg bellach fod â chymwysterau uchel, pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau bod athrawon ar lefel a oedd yn berthnasol i'w cefndir proffesiynol.

15. Er ei bod yn ddealledig y dylai'r rhai sy'n darparu addysg fod â chymwysterau addas i addysgu, roedd pryder y gallai galw am lefel 5 neu uwch beri risg i'r

sector golli ymarferwyr rhagorol nad oeddent yn dymuno neu'n medru ennill y lefel hon o gymhwyster.

16. Atgyfnerthodd sawl ymatebydd y neges bod datblygiad proffesiynol parhaus yr un mor bwysig i'r proffesiwn ag isafswm lefel y cymhwyster addysgu.

**Cymwysterau Lefel 5**

17. Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 2 "Ydych chi'n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 5 (ac uwch) sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ar draws y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)?". O'r rhain, roedd 38% yn cytuno â'r rhestr arfaethedig, roedd 17% yn anghytuno, ac nid oedd 48% yn cytuno nac yn anghytuno.

18. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn cytuno yn teimlo ei bod yn ymdrin â'r gofynion yn dda. Roedd rhai yn cwestiynu pam nad oedd yn cynnwys cymwysterau lefel uwch, er enghraifft y TAR gyda SAC. Mae'r rhestr yn cynnwys cymwysterau ar Lefel 5 yn unig i alluogi Cyngor y Gweithlu Addysg i gynghori cofrestreion ynghylch a yw eu cymhwyster yn cyrraedd y safon ofynnol.

19. Roedd rhai ymatebwyr yn poeni bod lefel 5 yn rhy uchel i rai oedd yn gweithio yn y sector.

20. Roedd pryderon y gallai'r rhestr, a'r gofyniad, gael effaith niweidiol ar recriwtio ac y gallai atal rhai unigolion rhag gweithio yn y sector.

21. Cododd Cyngor y Gweithlu Addysg bryderon ynghylch pennu rhestr bendant o gymwysterau i'r ddeddfwriaeth, sy'n ddull gweithredu diffygiol yn eu barn nhw. Mynegwyd pryderon y byddai unrhyw welliannau i'r rhestr yn broblemus pe bai angen newid yn y ddeddfwriaeth i ganiatáu i weithwyr proffesiynol yn y sector ei defnyddio fel tystiolaeth o lefel eu cymhwyster. Roedden nhw wedi profi'r broblem hon pan oedd rhestr o gymwysterau yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth yn ymwneud â gweithwyr ieuenctid ac roedd ganddyn nhw bryderon y byddai'r broblem yn cael ei hailadrodd yma.

## Ymarferwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned

22. Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 3 "Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ychwanegu categori cofrestru ar gyfer ymarferwyr addysg oedolion sy'n gweithio yn y gymuned?". Roedd dwy rhan o dair o'r rhai a ymatebodd yn cytuno â'r cynnig, 4 yn anghytuno ac nid oedd 6 yn cytuno nac yn anghytuno.

23. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn iawn bod ymarferwyr dysgu oedolion yn cael eu cadw i'r un safonau ag athrawon mewn rhannau eraill o'r sector, a bod hyn yn gam sylweddol tuag at broffesiynoli'r sector. Cytunodd yr ymatebwyr hefyd y byddai cynnwys ymarferwyr dysgu oedolion yn cryfhau trefniadau diogelu dysgwyr ac ymarferwyr ar draws y sector ôl-16.

24. Codwyd pryderon gan rai mewn perthynas â nifer yr oriau y mae rhai ymarferwyr mewn gwaith dysgu cymunedol yn eu gweithio, gan rybuddio rhag disgwyl gormod gan yr unigolion hyn. Rhybuddiodd eraill y gallai ymarferwyr a oedd yn gweithio nifer fach o oriau fod yn llai tebygol o ymuno â'r proffesiwn pe bai disgwyliad arnynt i gofrestru.

25. Roedd yr ymatebwyr hefyd yn cyfeirio at yr angen i sicrhau nad yw cofrestru a rheoleiddio yn atal sefydliadau ac awdurdodau lleol rhag cyflogi arbenigwyr nad ydynt yn addysgwyr yn ôl proffesiwn i ddarparu cyfleoedd dysgu.

**Diffiniad**

26. Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 4 "Ydych chi'n cytuno â'r diffiniad o ymarferwyr addysg oedolion sy'n gweithio yn y gymuned sydd wedi'i gynnwys yn y deddfwriaethau?". Roedd 70% o'r rheini yn cytuno â'r diffiniad a ddarparwyd, gydag 20% yn anghytuno a 10% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

27. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo y dylai fod gwahaniaeth cliriach o fewn y ddeddfwriaeth rhwng Addysg Bellach ac Addysg yn y Gymuned gan eu bod yn teimlo bod y ddau yn cynrychioli rhannau gwahanol iawn o'r sector.

28. Darparodd un ymatebydd ddiffiniad arall o ddysgu cymunedol: *"Mae Dysgu Cymunedol yn darparu cyfleoedd dysgu hygyrch a chynhwysol i bobl o bob cefndir a gallu ac fe'i cyflwynir yn aml mewn amgylchedd cyfarwydd (e.e. ysgol neu ganolfan gymunedol) lle mae pobl yn teimlo'n fwy hyderus i gymryd rhan."*

29. Pwysleisiodd un ymatebydd hefyd bwysigrwydd ei gwneud yn glir o fewn y ddeddfwriaeth bod y gofyniad i gofrestru yn ymwneud â'r rhai sy'n cynnig darpariaeth a ariennir gan y llywodraeth yn unig, ac nid y rhai sy'n darparu gweithgareddau hamdden wedi'u hunan-ariannu.

**Gofyniad lefel cymhwyster.**

30. Cafwyd 29 o ymatebion i gwestiwn 5 "Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ymarferwyr addysg oedolion sy'n gweithio yn y gymuned feddu ar gymhwyster addysgu Lefel 3 o leiaf?". Roedd 76% yn cytuno â'r cynnig hwn, gyda 17% yn anghytuno a 12% ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

31. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y lefel yn briodol i'r math o ddarpariaeth, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, ac yn croesawu'r ffaith ei fod ar lefel ychydig yn is na'r hyn oedd yn ofynnol ar gyfer athrawon Addysg Bellach.

32. Teimlai'r ymatebwyr y byddai'r dull gweithredu a'r safon yn helpu i greu cydraddoldeb a chodi safonau addysg i sicrhau bod yr holl ymarferwyr a'r holl ddarpariaeth yn cynrychioli ymrwymiad i ansawdd a safonau uchel.

33. Pwysleisiodd sawl ymatebydd fod angen sicrhau bod cyllid a darpariaeth cymhwyster Sgiliau Hanfodol Lefel 3 i ymarferwyr ar gael i bobl yn y sector ei wneud unwaith y daw'r ddeddfwriaeth i rym.

34. Cwestiynodd Cyngor y Gweithlu Addysg pam nad yw Llywodraeth Cymru yn cynnig cymhwyster gofynnol ar gyfer ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith, gan ei bod yn ymddangos yn anghyson mai dyma'r unig ran o'r sector heb gymhwyster gofynnol bellach.

35. Pwysleisiodd eraill fod angen sicrhau bod profiad yn cyfrannu tuag at y cymhwyster hefyd, oherwydd bod gan ymarferwyr addysg oedolion yn y gymuned yn aml flynyddoedd lawer o brofiad yn y sector er nad oes ganddynt y cymwysterau addysgu perthnasol.

36. Roedd un ymatebydd yn teimlo nad oedd angen cael isafswm cymhwyster gofynnol ar gyfer y sector ac y byddai'n cael effaith niweidiol ar allu'r sector i gyflogi pobl sydd â sgiliau priodol.

**Cymwysterau Lefel 3**

37. Cafwyd 30 o ymatebion ar gyfer cwestiwn 6 "Ydych chi’n cytuno â'r rhestr arfaethedig o gymwysterau addysgu Lefel 3 (ac uwch) sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn drafft (gan gynnwys cymwysterau cyfatebol ar draws y DU a chymwysterau hanesyddol perthnasol)?". Unwaith eto, cafwyd ymateb cymysg iawn. Roedd 13 yn cytuno â'r cynnig, 4 yn anghytuno ac nid oedd 13 yn cytuno nac yn anghytuno.

38. Cwestiynodd yr ymatebwyr pam nad oedd cymwysterau lefel uwch, gan gynnwys y TAR a'r BEd, ar y rhestr.

39. Mynegodd Cyngor y Gweithlu Addysg bryder eto ynghylch cael rhestr bendant o gymwysterau gan eu bod wedi profi anawsterau gyda'r un system pan gafodd ei chyflwyno yn y Sector Ieuenctid. Atgyfnerthwyd hyn gan ymatebwyr eraill a oedd yn pryderu y byddai dewis ymarferwyr o ba gymwysterau addysg y gellid eu cymryd yn y dyfodol yn gyfyngedig tu hwnt pe na bai modd diweddaru'r rhestr hon yn rhwydd oherwydd ei statws statudol.

40. Roedd eraill yn teimlo bod y rhestr yn gynhwysfawr.

## Uwch Arweinwyr

41. Cafwyd 31 o ymatebion i gwestiwn 7 "Ydych chi’n cytuno â'r gofyniad arfaethedig i bob uwch arweinydd a phennaeth mewn Sefydliadau Addysg Bellach gael eu cofrestru?". Roedd 71% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 13% yn anghytuno ac nid oedd 13% yn cytuno nac yn anghytuno. Ni chafwyd ymateb gan un ymatebydd i'r cwestiwn hwn.

42. Roedd sawl ymatebydd yn teimlo ei bod yn briodol gofyn i uwch arweinwyr gynnal yr un safonau â staff addysgu, gan fod ganddynt ddylanwad a chyfrifoldeb sylweddol. Roedd rhai yn teimlo y dylai fod yn gliriach bod disgwyliad i bob uwch arweinydd gofrestru, nid dim ond y rhai o gefndir addysgu. Teimlai un ei bod yn

hanfodol sicrhau bod y cod ymddygiad yn cael ei gymhwyso'n gyson, a bod atebolrwydd yn cael ei gynnal ar draws pob lefel o fewn sefydliadau addysgol.

43. Roedd cefnogaeth i ddod â Phenaethiaid a Phrif Weithredwyr Sefydliadau Addysg Bellach o dan yr un gofynion â phenaethiaid mewn ysgolion, gan greu mwy o gydraddoldeb ar draws y sector.

44. Rhybuddiodd ymatebwyr bod angen gofal o ran y rhai o gefndiroedd galwedigaethol technegol a allai hefyd fod â chyfrifoldebau i gofrestru yn eu proffesiwn dewisol.

45. Cwestiynodd Cyngor y Gweithlu Addysg pam nad oedd y gofyniad hwn yn cael ei ymestyn i gynnwys Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol hefyd.

## Gwirfoddolwyr y trydydd sector

46. Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 8 "Ydych chi’n cytuno â'r cynnig na ddylai fod yn ofynnol i wirfoddolwyr neu'r rhai sy'n darparu hyfforddiant mewn perthynas â phroffesiwn ar sail dros dro neu achlysurol ar gyfer Sefydliad Addysg Bellach gofrestru gyda'r Cyngor?". O blith y rhain roedd union hanner yn cytuno â'r cynnig, 9 yn anghytuno ac nid oedd 6 yn cytuno nac yn anghytuno.

47. Cytunodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr na fyddai'n syniad da gofyn i wirfoddolwyr gofrestru, gan gydnabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth gynnig darpariaeth, ond hefyd am eu bod yn rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim.

48. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo y byddai gofyn i wirfoddolwyr gofrestru yn cael effaith negyddol ar nifer y bobl sy'n barod i wirfoddoli.

## Ffioedd

49. Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 9 "Ydych chi’n cytuno â'r strwythur ffioedd ar gyfer y categorïau cofrestru newydd arfaethedig?". Roedd 7 yn cytuno â'r cynnig, 9 yn anghytuno ac nid oedd 14 yn cytuno nac yn anghytuno.

50. Roedd llawer o'r sylwadau a ddaeth i law yn ymwneud â'r oriau cyfyngedig y mae llawer o ymarferwyr dysgu cymunedol yn eu gweithio, a'r effaith y gallai'r ffi ei chael arnynt.

51. Nododd un ymatebydd, oherwydd gostyngiadau cyllid i'r sector addysg oedolion yn y gymuned, y byddai'n anodd i ddarparwyr dalu am gost cofrestru ar gyfer ei holl staff. Roedd pryder y gallai hyn arwain at ostyngiad yn y dosbarthiadau i dalu am y ffioedd.

52. Roedd un ymatebydd yn annog rhoi system pro-rata ar waith, tra bod un arall yn argymell graddfa ffioedd yn cyfateb i nifer yr oriau y byddai'r ymarferydd yn gweithio.

## Newidiadau ychwanegol

53. Cafwyd 30 o ymatebion i gwestiwn 10 "Ydych chi’n credu bod yna newidiadau eraill i'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â’r newidiadau arfaethedig i’r categorïau a’r gofynion cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg y dylid eu hystyried?", er mai dim ond 27 a ymatebodd i'r arolwg. O blith y rhain roedd 3 yn cytuno, 3 yn anghytuno ac nid oedd 21 yn cytuno nac yn anghytuno.

54. Ychydig iawn o sylwadau ddaeth i law mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

55. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid rheoleiddio pob aelod o staff, tra bod eraill yn teimlo bod y rheoliadau eisoes wedi mynd yn rhy bell.

56. Atgyfnerthodd Cyngor y Gweithlu Addysg eu hargymhellion na ddylid cael rhestr bendant o gymwysterau yn gysylltiedig yn ffurfiol â'r ddeddfwriaeth, y dylai fod lefel cymhwyster gofynnol yn gysylltiedig â chofrestru darparwyr Hyfforddiant Annibynnol ac y dylid ymestyn gofynion cofrestru uwch arweinwyr i gynnwys Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol.

57. Teimlai ymatebydd arall y dylid ystyried costau cyffredinol gweithio yn y proffesiwn ar gyfer athrawon newydd, gan gynnwys gwiriadau DBS a chostau posibl cofrestru gyda'u cyrff proffesiynol eu hunain os ydynt yn dod o gefndir galwedigaethol technegol.

58. Roedd un ymatebydd yn teimlo'r angen i ymestyn cofrestriad i'r rhai sy'n darparu cyrsiau Addysg Uwch o fewn Sefydliadau Addysg Bellach.

## Y Gymraeg

59. Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i gael barn ar yr effaith ar y Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg:

- Cwestiwn 11– Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol categorïau cofrestru newydd Cyngor y Gweithlu Addysg ar yr iaith Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

- Cwestiwn 12 - Yn eich barn chi, a allai'r ddeddfwriaeth ar y categorïau cofrestru newydd gael ei llunio neu ei newid er mwyn: sicrhau effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

60. Cafwyd 19 ymateb i gwestiwn 11 a 12 ymateb i gwestiwn 12.

61. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg. Cododd yr ymatebwyr bryderon am yr anhawster wrth recriwtio siaradwyr Cymraeg o fewn y sector, a'r angen i sicrhau bod darpariaeth ar gael i gefnogi hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

62. Roedd un ymatebydd yn teimlo mai un ffordd o gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg fyddai nodi bod yn rhaid i unrhyw gymhwyster addysgu roi rhywfaint o sylfaen i ymarferwyr mewn addysgeg ddwyieithog. Byddai gweithredu system gymwysterau sydd wedi'i hachredu'n genedlaethol yn caniatáu cyflawni hyn.

### Materion cysylltiedig

63. Cafwyd 14 o ymatebion mewn perthynas â'r cwestiwn terfynol a oedd yn cynnig cyfle i ymatebwyr wneud sylwadau ar unrhyw faterion cysylltiedig.

64. Roedd un ymatebydd yn dymuno gweld gwell hyrwyddo o'r manteision sydd ar gael i aelodau Cyngor y Gweithlu Addysg a mwy o gyfleoedd hyfforddi wyneb yn wyneb yn cael eu darparu ganddynt mewn ardaloedd daearyddol gwledig.

65. Pwysleisiodd un arall ei bod yn bwysig i Gyngor y Gweithlu Addysg a chyflogwyr gael eglurder gan Lywodraeth Cymru ynghylch pa gamau i'w cymryd os na fydd yr ymarferydd yn bodloni'r gofynion cyfreithiol newydd hyn.

66. Gofynnodd un ymatebydd i Gyngor y Gweithlu Addysg gyhoeddi ystadegau yn nodi ystod y gwahanol gymwysterau addysgu a ddelir gan athrawon Addysg Bellach a chan ymarferwyr dysgu oedolion yn y gymuned er mwyn gallu nodi tueddiadau yn lefelau cymwysterau'r gweithlu.

67. Roedd un arall yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu rhesymeg glir dros y gwaith hwn a sicrhau bod gan ymarferwyr amser i ymgymryd ag unrhyw ddysgu proffesiynol cysylltiedig. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau nad oedd rheoleiddio'r gweithlu yn atal gweithwyr proffesiynol brwd rhag galluogi pobl i ddysgu sgiliau hanfodol – ond gan gynnal hygrededd proffesiynoldeb y gweithlu.

## Ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf

68. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus. Y bwriad yw cyflwyno'r Gorchymyn terfynol yn y gwanwyn.

69. Cododd Cyngor y Gweithlu Addysg rai materion gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r rhestr o gymwysterau a'r angen i gynnwys darparwyr Hyfforddiant Annibynnol o fewn y ddeddfwriaeth, o ran cael cymhwyster gofynnol ar gyfer cofrestru, ac i'w huwch arweinwyr ddod o dan y gofrestr. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i ystyried sut i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yn y dyfodol, ond ni fydd Darparwyr Hyfforddiant Annibynnol yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

70. Cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch yr effaith y gallai'r ffioedd ei chael ar y rhai sy'n gweithio yn y sector am ychydig oriau'r wythnos yn unig. Nodir strwythur ffioedd Cyngor y Gweithlu Addysg yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 ac mae wedi'i osod ar £46 y flwyddyn ar gyfer pob cofrestrai. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg bob blwyddyn i benderfynu ar unrhyw gymorthdaliadau y mae'n dymuno eu cynnig i'r ffioedd hyn. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn wrth drafod y ffioedd parhaus gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

71. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar unrhyw faterion ychwanegol, cysylltiedig a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn ac yn penderfynu a oes angen gwneud newidiadau pellach.

## Atodiad A: Rhestr o'r ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 31 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. O'r rhain, gofynnodd 20 o ymatebwyr am gael aros yn ddienw. Yn ogystal â'r dinesydd preifat a ymatebodd, rydym wedi rhestru'r bobl a'r sefydliadau a roddodd ganiatâd i gyhoeddi eu manylion.

Coleg Penybont
Colegau Cymru
Cyngor y Gweithlu Addysg
Estyn
UCAC
NEU Cymru
Helene Ramm, Prifysgol Aberystwyth
Holly Donohoe, Coleg Gŵyr Abertawe
Fran Green, Grŵp NPTC
Andy Philips RCTBC
Dawn Bunn, Clybiau Plant Cymru Kids Clubs
Stuart Riby